Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Complexion Medispa Ltd

Dyddiad arolygu: 18 Awst 2016

Dyddiad cyhoeddi: 21 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-7905-0


© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 3

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

Ansawdd profiad y claf .......... 6

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .......... 8

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .......... 12

6. Y Camau Nesaf .......... 14

Atodiad A .......... 15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.[1]

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

---

[1] Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd

## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.[2] Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[2] Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

## 3. Cyd-destun

Mae Complexion Medispa Ltd wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaethau technoleg golau pwls dwys (IPL)[3] yn Complexion Medispa a Chlinig Laser, 24 Stryd Fawr, Caerllion, Casnewydd, NP18 1AG. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ym mis Chwefror 2016.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig a gweithredwr y peiriant golau pwls dwys. Mae’r gwasanaeth wedi’i gofrestru i ddarparu’r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System golau pwls dwys Luxor Versalles HKS801 ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Adfywio’r croen
- Gwaredu crychau
- Triniaethau acne
- Pigmentiadau.

[3] Mae golau pwls dwys yn dechnoleg ffynhonnell olau sbectrwm eang sy’n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i berfformio triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetig a therapiwtig.

## 4. Crynodeb

Gwnaethom ystyried sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar eu triniaethau a'r gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddariadau i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Dogfennau'n ymwneud â'r hyfforddiant yr oedd gweithredwr y system golau pwls dwys wedi'i gwblhau
- Y protocolau meddygol i gael eu hadolygu er mwyn sicrhau mai dim ond un gyfres a lynir wrthi.

Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwneud rhai gwelliannau o ran y trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliadau a safonau perthnasol. Mae hyn yn bwysig i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Er nad yw hyn wedi arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn. Byddai methu â gwneud hynny'n arwain o bosibl at AGIC yn cymryd camau oherwydd diffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**<u>Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)</u>**

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedwyd wrthym y cynhelir ymgynghoriad ar lafar gyda'r cleifion cyn triniaeth, sy'n cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r manteision. Gofynnwyd i gleifion roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth, a gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a chanllawiau gofal dilynol a roddwyd i gleifion.

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflenni cyflwr meddygol a meddyginiaethau. Caiff unrhyw newidiadau o ran hanes meddygol eu gwirio ar lafar yn ystod pob apwyntiad ac mae'r cleifion yn llofnodi i gadarnhau.

Mae Complexion Medispa yn cadw copïau papur o wybodaeth am gleifion a'u triniaethau. Gwelsom enghreifftiau o rai cofnodion a nodwyd bod y wybodaeth briodol wedi'i chofnodi. Defnyddir dyddiadur electronig i gofnodi pan fydd triniaethau'n cael eu darparu.

**<u>Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)</u>**

Gwelsom fod datganiad o ddiben ar gael, ond roedd angen ei ddiweddaru er mwyn iddo gydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys:

- Y trefniadau ar gyfer hebryngwyr

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid diweddaru'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru at AGIC.***

Nid oedd copi ar wahân o'r canllaw i gleifion a dywedwyd wrthym fod y datganiad o ddiben yn ganllaw hollgynhwysol. Byddai cael dwy ddogfen ar wahân yn arfer da. Felly argymhellir y dylid diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys canllaw i gleifion yn y pennawd hefyd.

Argymhellwyd y dylid gwneud y diweddariadau canlynol yn unol â'r rheoliadau:

- Diweddau'r canllaw i gleifion i adlewyrchu'r staff presennol sy'n darparu triniaethau gofal pwls dwys

- Manylion ynghylch sut y gall cleifion gael gafael ar adroddiad arolygu mwyaf diweddar AGIC (e.e. drwy gynnwys cyfeiriad gwefan AGIC)
- Crynodeb o'r adborth diweddaraf gan gleifion
- Manylion cyswllt AGIC, yn cynnwys y rhif ffôn
- Trefniadau ar gyfer cael caniatâd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.***

**Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd deg o holiaduron cleifion cyn yr arolygiad.

Roedd yr holiaduron yn dangos bod pob claf yn cytuno'n gryf â datganiadau bod y clinig yn lân a thaclus, a bod y staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwrando, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod eu gofal a'u triniaeth yn 'ardderchog'.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y gwasanaeth yn cynnal eu holiaduron cleifion eu hunain bob blwyddyn. Roedd cardiau sylwadau cwsmeriaid ar gael yn y dderbynfa a chasglwyd adborth yn bennaf o dudalennau Facebook a Twitter y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi, a bod y canlyniadau'n llywio'r blaengynllun busnes. Yn y dderbynfa, roedd llyfr ar gael a oedd yn arddangos sylwadau cwsmeriaid. Roedd yr holl ffyrdd hyn o geisio adborth yn golygu bod gan y gwasanaeth ddull addas o gasglu adborth gan gleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)**

Esboniodd y rheolwr cofrestredig mai dim ond un gweithredwr system golau pwls dwys oedd yn rhoi triniaethau i gleifion. Gwelsom dystysgrif oedd yn dangos bod y gweithredwr system golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.[4] Dywedwyd wrthym fod gweithredwr y system golau pwls dwys wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys, ond nid oedd tystysgrif neu gofnod o'r hyfforddiant hwn ar gael. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i drefnu i gael tystysgrif hyfforddiant a'i hanfon at AGIC.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid cael tystiolaeth i ddogfennu bod pob gweithredwr peiriant golau pwls dwys wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant.***

Gwelsom fod contract gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau ar waith ar hyn o bryd a bod rheolau lleol a oedd yn nodi sut i weithredu'r peiriant yn ddiogel. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ddiweddaru'r rheolau lleol i sicrhau eu bod yn cyfeirio at y rheoliadau cywir a'u bod yn cynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau niweidiol yn unol â'r gofynion rheoliadol.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau'n ymweld â'r gwasanaeth bob blwyddyn ac yn adolygu'r rheolau lleol a'r asesiadau risg amgylcheddol. Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd yr ymweliad diwethaf gan yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau ym mis Hydref 2015, a darparwyd llythyr yn amlinellu'r canfyddiadau ar gyfer y rheolwr cofrestredig.

Gwelsom dystysgrif oedd yn dangos bod y peiriant golau pwls dwys wedi cael ei wasanaethu. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif yn nodi ei bod yn ddilys am chwe mis, a oedd yn golygu y dylai'r peiriant golau pwls dwys fod wedi cael ei wasanaethu ym mis Ebrill 2016 yn ôl yr amserlen chwe mis. Trafodwyd y mater hwn gyda'r rheolwr cofrestredig, a chytunwyd i ofyn am gadarnhad ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC unwaith y byddai popeth wedi'i esbonio.

---

[4] Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio systemau laserau a golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau'n ddiogel.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r rheolwr cofrestredig geisio eglurhad o'r canllawiau a roddwyd ynghylch gwasanaethu'r peiriant golau pwls dwys, gan gynnwys yr amserlen chwe mis ar gyfer y dystysgrif gwasanaethu, er mwyn sicrhau bod y peiriant yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da a diogel.***

***Rhaid anfon copi o'r canllawiau hyn at AGIC unwaith iddynt gael eu hegluro.***

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr y peiriant golau pwls dwys. Roedd yn ymddangos bod y cyfarpar diogelu llygaid mewn cyflwr addas a dywedwyd wrthym fod gweithredwr y peiriant golau pwls dwys yn ei wirio cyn unrhyw driniaeth.

Sicrhawyd bod y peiriant golau pwls dwys yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio, ac roedd y staff yn tynnu'r allwedd oddi yno ar ôl ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod yr allwedd yn cael ei chloi yn y sêff ar ddiwedd y dydd.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod llythyr wedi'i ddarparu gan yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau, lle'r oedd mesurau rheoli wedi'u hamlinellu'n gryno. Dywedwyd wrthym fod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau wedi mynegi'r canfyddiadau eraill ar lafar. Gwelsom fod gan y gwasanaeth ddogfen a oedd yn cynnwys asesiad risg amgylcheddol yr oeddent wedi'i gynnal, ond nid oedd yn cynnwys y peryglon a'r mesurau rheoli ar gyfer y peiriant golau pwls dwys. Gan nad oedd asesiad cynhwysfawr o'r holl beryglon wedi'i gofnodi, roedd yn anodd canfod maint llawn yr asesiad risg amgylcheddol a'r cynnydd hyd yn hyn. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i gyfeirio at bum cam i asesu risg yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i’r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl risgiau, gan gynnwys risgiau'n ymwneud â'r peiriant golau pwls dwys, yn cael eu nodi'n glir, eu hasesu, eu rheoli, eu cofnodi a'u hadolygu. Yn benodol, dylid cynnwys y peryglon a'r mesurau rheoli'n ymwneud â'r peiriant golau pwls dwys yn yr asesiad risg amgylcheddol.***

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth i ddangos pan fyddai'r ystafell yn cael ei defnyddio, a byddai'r drws ar gau hefyd. Nid oedd unrhyw arwyddion rhybudd diogelwch yn cael eu defnyddio. Er na nodwyd yn benodol yn y rheolau lleol bod angen arwyddion rhybudd diogelwch, roedd yr adroddiad diwethaf gan yr

ymgynghorydd diogelu rhag laserau'n cynnwys cam gweithredu i ddarparu mwy o arwyddion. Felly, mae angen eglurhad gan yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau ynghylch y cam gweithredu hwn a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf. Yn ogystal, dylid dilyn y Safonau Diogelwch Prydeinig o ran arwyddion i rybuddio'r cyhoedd ynglŷn â'r risg y tu mewn i'r ystafell driniaeth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid arddangos arwyddion rhybudd priodol y tu allan i'r ystafell driniaeth pan fydd y peiriant golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad ar ddamwain a allai achosi niwed.***

Roedd dau brotocol triniaeth gwahanol ar waith ar gyfer y peiriant golau pwls dwys. Roedd un wedi'i lofnodi gan yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau, ond nid oedd yn rhestru ei gymhwyster meddygol. Roedd y set arall o brotocolau triniaeth wedi'i llofnodi gan ymarferwr meddygol, ond nid oeddem yn gallu canfod dyddiad dod i ben/adolygu. Gwnaethom gymharu'r ddau brotocol hyn a gweld eu bod yn cynnwys gwybodaeth wrthwynebol. Felly, mae'n hanfodol bod y rheolwr cofrestredig yn rhoi sylw i'r mater hwn er mwyn sicrhau bod un set gyson o brotocolau meddygol ar waith. Yn ogystal, cytunodd y rheolwr cofrestredig i gysylltu â'r ymarferwr meddygol i wirio dyddiad dod i ben y protocolau a ddarparwyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Yn unol â'r gofynion rheoliadol, rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocol triniaeth ar gael sydd wedi'i ysgrifennu gan ymarferwr meddygol neu ddeintyddol arbenigol, a bod triniaethau'n cael eu darparu'n unol â hynny. Yn benodol, rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth cyson ar waith sy'n cael eu llofnodi gan ymarferwr meddygol neu ddeintydd hyfforddedig a phrofiadol o’r ddisgyblaeth berthnasol.**

**Diogelu plant ac oedolion agored i niwed (Safon 11)**

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisi a gweithdrefn diogelu wedi'u sefydlu a oedd yn darparu llwybr pendant i'w ddilyn pe byddai pryder yn ymwneud â diogelwch. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn darparu hyfforddiant mewnol i'r staff ar sut i ymdrin ag unrhyw broblemau diogelu, ond nid oedd unrhyw dystysgrifau ar gael i ddangos yr hyfforddiant a gwblhawyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid darparu copïau o dystysgrifau hyfforddiant, yn benodol rhai diogelwch, ar gyfer AGIC er mwyn dangos bod gweithredwr y peiriant golau pwls dwys wedi derbyn hyfforddiant priodol.***

## Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus.  Roedd polisi rheoli heintiau a glanhau ar waith, a oedd yn ymwneud â hylendid dwylo a glanhau'r ystafell driniaeth a'r cyfarpar rhwng cleifion.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei lanhau'n briodol, gan gynnwys rota glanhau a oedd yn cael ei rannu rhwng y staff.

## Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal, i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gwiriad o wifrau trydanol yr adeilad wedi cael ei gynnal o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch rhag tân. Mae'r diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn ac roedd y gwasanaeth yn cynnal eu hymarferion tân eu hunain.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael, ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)**

Y rheolwr cofrestredig sy'n cynnal Complexion Medispa Limited. Darperir triniaethau golau pwls dwys gan weithredwr y peiriant golau pwls dwys.

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi sefydlu nifer o bolisïau a bod gan y polisïau ddyddiad adolygu a dyddiad y fersiwn wedi'u nodi ar flaen y ffolder polisïau. Mae'r staff yn cael eu hysbysu am newidiadau i bolisïau gan y rheolwr cofrestredig, ac roedd dalen ar gael i'r staff ei llofnodi yn yr ystafell staff i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisïau diweddaraf.

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn cynnal archwiliadau a hapwiriadau o gofnodion cleifion, ymhlith eraill. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliadau hyn wedi'u dogfennu. Er bod cwblhau archwiliadau'n arfer da, gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig ei bod yn bwysig cofnodi hyn fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

**Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)**

Roedd polisi cwynion ar gael ac roedd manylion y weithdrefn gwyno wedi eu cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion. Roedd unrhyw bryderon neu broblemau'n cael eu nodi mewn dyddiadur. Gwnaethom drafod yr angen i gofnodi cwynion ysgrifenedig ac ar lafar os derbynnir rhai er mwyn gallu rhoi sylw i unrhyw themâu neu broblemau cyffredin a nodir.

**Rheoli cofnodion (Safon 20)**

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd bod cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

**Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)**

Roedd y rheolwr cofrestredig a gweithredwr y peiriant golau pwls dwys wedi cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dangoswyd enghraifft i ni o'r rhaglen sefydlu oedd ar waith ar gyfer staff newydd, a gwelsom enghreifftiau o adolygiadau ac arfarniadau blynyddol. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir i

gyflawni eu swyddi, a chanfod unrhyw anghenion hyfforddi.  Fe'u cynghorwyd yn ystod yr ymweliad i sicrhau bod pob adolygiad a gwerthusiad yn cael ei lofnodi a'i ddyddio.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwneud rhai gwelliannau o ran y trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiad parhaus â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a threfniadau llywodraethu cadarn, ac ymateb prydlon gan y darparwr cofrestredig wrth ddatrys problemau, yn arwyddion pwysig o allu darparwr i redeg ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a medr digonol. Mae disgwyl, felly, i'r darparwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, oherwydd gallai methu â gwneud hynny olygu y bydd AGIC yn cymryd camau ar gyfer peidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Complexion Medispa yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu barhaus.

*Atodiad A*

## Cynllun Gwella

## Gwasanaeth: Complexion Medispa Ltd

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Awst 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Rhaid diweddaru'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru at AGIC. | Rheoliad 6 (1) (2) | Rydym bob amser wedi darparu datganiad o ddiben ar gyfer ein cleientiaid sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac a gyflwynir iddynt ar adeg cofrestru. Rwyf wedi diweddaru'r datganiad o ddiben ac wedi anfon copi arall at AGIC. | Rheolwr | Cwblhawyd |
| 7 | Rhaid diweddaru'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau. Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddaru at AGIC. | Rheoliad 7 (1) (a) – (g) a (2) | Mae hwn wedi'i ddiweddaru a'i anfon at AGIC. | Rheolwr | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Rhaid cael tystiolaeth i ddogfennu bod pob gweithredwr peiriant golau pwls dwys wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant. | Rheoliad 20 (1) (a) a (45) (3) | Mae llythyr wedi'i anfon at AGIC yn cadarnhau bod yr hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant golau pwls dwys wedi'i gynnal. | Rheolwr | Cwblhawyd |
| 9 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig geisio eglurhad o'r canllawiau a roddwyd ynghylch gwasanaethu'r peiriant golau pwls dwys, gan gynnwys yr amserlen chwe mis ar gyfer y dystysgrif gwasanaethu, er mwyn sicrhau bod y peiriant yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da a diogel.<br><br>Rhaid anfon copi o'r canllawiau hyn at AGIC unwaith iddynt gael eu hegluro. | Rheoliad 15 (2) | Rydw i'n aros am ymateb gan y cwmni, ond mae'r cynrychiolydd allan o'r wlad ar hyn o bryd. | Rheolwr | Wyth wythnos |
| 9 | Rhaid i’r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl risgiau, gan gynnwys risgiau'n ymwneud â'r peiriant golau pwls dwys, yn cael eu nodi'n glir, eu hasesu, eu rheoli, eu cofnodi a'u hadolygu. Yn benodol, | Rheoliad 19 (1) (a) (b) | Mae gennym ymgynghorydd diogelu rhag laserau sy'n cwblhau ac yn adolygu ein hasesiad risg, a roddwyd ar adeg yr arolygiad, bob blwyddyn. Rydym hefyd yn cynnal asesiad risg ar gyfer ein cleientiaid yn ystod ein hymgynghoriad | Rheolwr | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | dylid cynnwys y peryglon a'r mesurau rheoli'n ymwneud â'r peiriant golau pwls dwys yn yr asesiad risg amgylcheddol. | | trylwyr, a chyflwynir ffurflenni cynhwysfawr a holiaduron yn ogystal â chynnal prawf croen. Rydym hefyd yn cynnal asesiad risg ar gyfer pob triniaeth golau pwls dwys trwy sicrhau nad yw cleientiaid wedi newid neu wedi dechrau cymryd unrhyw feddyginiaeth newydd. Maen nhw a'r therapydd yn llofnodi ffurflenni caniatâd ar gyfer pob triniaeth. | | |
| 10 | Dylid arddangos arwydd rhybudd ar ddrws yr ystafell peiriant golau pwls dwys pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad ar ddamwain a allai achosi niwed. | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Canllawiau i gyflogwyr ar Reoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gwaith 2010 | Mae arwydd ychwanegol wedi'i roi ar y drws i'r ystafell peiriant golau pwls dwys erbyn hyn, yn unol â'ch cais chi ac nid ein hymgynghorydd diogelu rhag laserau. | Rheolwr | Cwblhawyd |
| 10 | Yn unol â'r gofynion rheoliadol, rhaid | Rheoliad 15 (1) (b) (c) a | Cadarnhawyd bod y protocol triniaeth a ddefnyddir yn | Rheolwr | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocol triniaeth ar gael sydd wedi'i ysgrifennu gan ymarferwr meddygol neu ddeintyddol arbenigol, a bod triniaethau'n cael eu darparu'n unol â hynny. Yn benodol, rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth cyson ar waith sy'n cael eu llofnodi gan ymarferwr meddygol neu ddeintydd hyfforddedig a phrofiadol o'r ddisgyblaeth berthnasol. | (10) | Complexion yn un a lofnodir gan y meddyg a dangoswyd hwnnw yn ystod yr arolygiad. A fyddech cystal â'n hysbysu pryd y mae'n rhaid i feddyg neu ddeintydd ei ddiweddaru yn unol â'r rheoliadau. | | |
| 10 | Rhaid darparu copïau o dystysgrifau hyfforddiant, yn benodol rhai diogelwch, ar gyfer AGIC er mwyn dangos bod gweithredwr y peiriant golau pwls dwys wedi derbyn hyfforddiant priodol. | Rheoliad 20 (1) (a) | Mae copi o'r dystysgrif hon wedi'i anfon at AGIC. | Rheolwr | Cwblhawyd |
| **Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | | |
| | | | | | |

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Clare Sawkins Enw (llythrennau bras):**

**Teitl: Rheolwr**

**Dyddiad:8/9/16**